


# Arolygiad o CEF Berwyn



Ymwelodd yr arolygwyr â'r carchar hwn ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025.



Roedden ni eisiau gwybod a oedd pethau'n well, yr un fath neu'n waeth i garcharorion ers i ni ymweld ddiwethaf yn 2022.



Gwnaethom hyn drwy:

- edrych o gwmpas y carchar
- gofyn i garcharorion a staff lenwi holiadur
- siarad â charcharorion
- siarad â staff a chynorthwywyr
- darllen dogfennau.

# Beth wnaethom ni ei ganfod?



**Roedd gormod o drais a gormod o gyffuriau. Roedd gormod o hunan-niweidio.**
Fe wnaethon ni roi 2 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Roedd y carchar yn lân ac yn daclus. Nid oedd y carcharorion yn cael atebion da i'w cwynion a'u ceisiadau.**
Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Nid oedd digon o garcharorion yn mynd i addysg neu waith. Roedd rhywfaint o'r addysgu'n annigonol.**
Fe wnaethon ni roi 2 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Roedd y carcharorion yn cael help da i ddod o hyd i rywle i fyw a swydd ar ôl iddynt adael Berwyn.**
Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.


# Beth ddylai'r carchar ei wneud?



Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr ddarllen ein hadroddiad arolygu. Mae'r adroddiad ar gael yn llyfrgell y carchar.

Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr wneud cynllun. Dylai'r cynllun ddweud wrthym sut byddan nhw'n datrys y problemau yn CEF Berwyn ac yn gwella pethau i garcharorion.

# Beth ydyn ni eisiau ei weld yn digwydd?




Rydyn ni eisiau i’r carchar wneud mwy i atal trais. Rydyn ni eisiau i staff helpu carcharorion i ymddwyn yn dda.




Rydyn ni eisiau i’r carchar wneud mwy i atal carcharorion rhag defnyddio cyffuriau. Rydyn ni eisiau i garcharorion deimlo’n ddiogel.



Rydyn ni eisiau i garcharorion gael mwy o help gan staff. Rydyn ni eisiau i staff ymateb yn gyflym i geisiadau a chwynion carcharorion.



Rydyn ni eisiau i garcharorion fynd i addysg a gwaith. Rydyn ni eisiau iddynt ddysgu sgiliau a fydd yn eu helpu.




Rydyn ni eisiau i garcharorion gael mwy o help gyda darllen.




Rydyn ni eisiau i garcharorion allu siarad â'u rheolwr troseddu yn amlach.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?



Byddwn yn dod yn ôl ymhen ychydig o flynyddoedd i weld pa mor dda mae'r carchar yn ei wneud. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth fyddwn ni wedi ei ganfod.



Os oes gennych chi gwestiynau, ysgrifennwch atom:

HM Inspectorate of Prisons
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU